Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 29 Ionawr 2013

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, J. Roberts, A. Thomas, J. A. Edwards, B. Jones, G.C. Jones, E. Jones, H. Huws, D. Williams, E. Parry, I. Bebb.
Cynghorydd Sirol J. Evans
Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: G. Parry
Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda i bawb.

2. Datganiadau Diddordeb: Arian Grant Harddu Pentrefi - E. Jones

3. Materion Cyngor Sir
Cyllideb / Treth Cyngor - disgwylir 5% codiad yn y dreth. Pob adran o fewn y Cyngor yn gorfod torri 7% o'u cyllideb.
Ynni gwynt ar y tir - newidiadau am gael eu gwneud i'r canllawiau draft
Cynhelir etholiadau ym mis Mai.
Llwybr/Lon Cil y Graig - Mr Challinor wedi symud y rhwystrau o'r llwybr. Y mater llys wedi'i ohirio.
Biniau halen - gofynnod y Cadeirydd am restr safleoedd sydd angen bin halen ar gyfer y tywydd oer.

4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 18fed Rhagfyr 2012
Cynigwyd J. Roberts ac eiliwyd gan E. Parry. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Gwaith i'r llwybr beicio ar y gweill.
5.2 Cyfarfod Cymal parthed coffadwriaeth y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y Cadeirydd a'r Is gadeirydd wedi methu cael lle yn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno. Gobeithir mynychu tro nesaf er mwyn cael gwybodaeth am arian grant tuag at y Neuadd Goffa.
5.3 Gwaith i'r gwlâu blodau - E. Parry am drefnu i'r Gwasanaeth Prawf ddod a chriw i ymgymryd â'r gwaith cyn gynted ag y bydd asesiad risg yn ei le.
5.4 Ieuan Jones, Tirmon y Gors wedi cael damwain gartref dros y gwyliau Nadolig ac wedi torri ei ysgwydd chwith. Bydd oddi wrth ei waith am gyfnod. Y Cadeirydd i ofyn i C. Roberts ymgymryd â'r gwaith dros dro.
5.5 Derbyniwyd pris gan Hymphreys Skips am gael bin 1100 litr i'r gors. £14.50 & TAW i'w wagio pob pythefnos.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan B. Jones bod y cyngor yn archebu'r bin erbyn 1af Ebrill 2013.
5.6 Gwelyau blodau o flaen y deintyddfa - y Clerc i gysylltu a'r deintydd i ofyn a byddent yn fodlon i'r Cyngor Bro gynnal a chadw'r safle.
5.7 Llwybr troed rhwng Llon Flagurog a Lon Hedydd - Cynghorydd J. Evans i gyfarfod a swyddog llwybrau'r Cyngor Sir.

6. Cofnodion Meysydd Chwarae - 8fed Ionawr 2013
Cynigwyd gan A. Williams ac eilwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1 Tîm pêl droed Llanfairpwll wedi derbyn sylw rhyngwladol gyda'r canlyniad fod tîm o Brazil eisiau dod yma i chwarae.
7.2 Bu'r Cadeirydd, Is Gadeirydd a'r Clerc mewn cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn a chwmni Capita Symonds i drafod syniadau oedd ganddynt ar gyfer gwella golygfa'r pentref. Roedd y cynlluniau'n rhai cyffredinol ond gobeithir cael cynlluniau manwl yn y dyfodol agos.
7.3 Gosod mesurydd trydan yn y maes aml bwrpas - cynllun gweithredu i'w drefnu gan y Pwyllgor Meysydd Chwarae ym mis Ebrill. Bydd angen pris am osod y mesurydd.

8. Cofnodion Pwyllgor Cyllid 8fed Ionawr 2013
Cynigwyd gan A. Mummery ac eilwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion
Dim materion yn codi
10. Cyllideb 2013/14 a Chadarnhau Priseb
Cyflwynwyd Cyllideb ddrafft a baratowyd gan y Pwyllgor Cyllid. Nodwyd bod cytundeb torri gwair i'w gadarnhau ym mis Chwefror ac felly amcan bris sydd wedi'i glustnodi yn y gyllideb.
Bydd angen i'r Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo baratoi cytundeb cynnal a chadw ar gyfer y llwybrau troed a chael 3 pris am y gwaith.
Nodwyd hefyd bod codiad o £2,000 yn y gyllideb oherwydd bod angen clustnodi £1,500 ar gyfer etholiad ym mis Mai 2013.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan D. Williams. Cadarnhawyd y gyllideb a chytunwyd i osod y priseb ar £35,000.

11. Cyfrifon Mis Ionawr 2013
Cyflwynwyd taenlen gwariant a derbyniadau mis Ionawr yn ogystal â thaenlen gwariant yn erbyn y gyllideb. Cynigwyd gan E. Parry ac eilwyd gan B. Jones. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

12. Gohebiaeth
12.1 Llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysebu eu bod yn ychwanegu at lwybr troed ar ochr y B4080.
12.2 Eisteddfod Môn 2012 Llanfairpwll a'r Cylch - llythyr yn cadarnhau bod yr Eisteddfod yn rhoi cyfraniad o £6482.70 tuag at gronfa'r Neuadd Goffa. Y Cadeirydd i fynychu cyfarfod i dderbyn y siec.

Ymatebion i'r llythyr anfonwyd parthed peilonau - adroddiad i'w baratoi gan H. Huws

13. Unrhyw Fater Arall
13.1 Ysgol feithrin -paneli'r nenfwd wedi torri. A. Le Cras wedi bod i edrych ar y gwaith. Nifer o baneli angen eu newid. Amcanbris o tua £400
Cytunwyd i wneud y gwaith ar unwaith.
B. Jones am adrodd yn ôl ar gyflwr yr adeilad yn dilyn archwiliad gan y pwyllgor.
13.2 Neuadd Goffa - Cyflwynwyd cylchlythyr draft gan y Cadeirydd i ddosbarthu i'r pentrefwyr yn hysbysebu o'r sefyllfa bresennol ac yn gwahodd i gyfarfod agored ar 19eg Chwefror.
Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan I. Bebb bod y llythyr yn mynd allan fel y mae. Derbyniwyd gwelliant gan G. C. Jones bod y swm gerllaw yn cael ei gadw allan o'r llythyr, ni chafwyd eilydd i'r gwelliant felly penderfynwyd gyrru'r llythyr yn ei ffurf bresennol.
Nodwyd bod £135 wedi'i dderbyn gan ymgyrch casglu tokens Daily Post a bod swm o £141 o'r un ymgyrch i ddod gan Llun am Wyth. Huw Alun Jones wedi cysylltu i ddweud bod print Kyffin Williams ar gael i'w werthu i godi arian tuag at y neuadd goffa.
13.3 Cafwyd adroddiad gan J. Roberts ar gyfarfod Un Llais Cymru a chyfarfod Trosedd ac Anhrefn.
13.4 adroddwyd bod Mr Dafydd Idriswyn Roberts yn ymddeol o'i swydd fel pennaeth yr ysgol gynradd ym mis Awst.
13.5 Lon Hedydd - CSYM yn edrych i mewn i'r sefyllfa parcio ar y lon.
13.6 Tyllau yn y lonydd - nodwyd bod gwaith eisoes yn symud ymlaen ar Ffordd Gwenllian. Y Clerc i ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i holi am gynlluniau gwaith ar gyfer gweddill y ffyrdd yn y pentref.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 26ain Chwefror 2013 am 7.00yh

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....(Dyddiad)